

## Hysbysiad Preifatrwydd Cofnodi Digwyddiadau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd

### 1. Cyflwyniad

Mae angen i Dîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd brosesu gwybodaeth bersonol am ddigwyddiadau a damweiniau o drwch blewyn er mwyn gallu:

- Cofnodi manylion yr holl ddigwyddiadau a'r damweiniau o drwch blewyn;
- Ymchwilio i wraidd pob digwyddiad a damwain o drwch blewyn fel nad ydynt yn digwydd eto;
- Galluogi'r Brifysgol i fodloni gofynion statudol Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013.

Ein manylion cyswllt yw:

Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd  
Prifysgol Aberystwyth  
Adeilad Penbryn  
Campws Penglais  
Ffôn: +44 (0) 1970 622169 / 622073  
Ebost: [hasstaff@aber.ac.uk](mailto:hasstaff@aber.ac.uk)

Prifysgol Aberystwyth yw'r rheolydd data ac mae ganddi Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu â nhw drwy [infogovernance@aber.ac.uk](mailto:infogovernance@aber.ac.uk).

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut rydym yn trin ac yn defnyddio eich gwybodaeth personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol y DU.

### 2. Sut rydym yn cael eich gwybodaeth personol

Data personol cynrychiolwyr yw'r wybodaeth a gesglir drwy gwblhau ffurflen cofnodi digwyddiad drwy system cofnodi digwyddiadau ar-lein y Brifysgol yn dilyn digwyddiad neu ddamwain o drwch blewyn. Mewn achosion lle cafodd unigolion eu heffeithio neu y gallent fod wedi eu heffeithio oherwydd y digwyddiad, bydd hyn yn cynnwys manylion fel enw, adran, cyfeiriad, rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost. Bydd ffurflenni cofnodi digwyddiadau hefyd yn cynnwys manylion yr anafiadau, a manylion cyswllt unrhyw dystion i'r digwyddiad. Bydd y data personol sydd wedi'i gynnwys yn y Ffurflenni Cofnodi Digwyddiadau yn cael ei ddefnyddio i:

- Alluogi'r Brifysgol i gofnodi rhai damweiniau difrifol penodol yn y gweithle, afiechydon galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol, yn unol â gofynion Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013;
- Ymchwilio i wraidd pob digwyddiad a damwain o drwch blewyn fel nad ydynt yn digwydd eto ac er mwyn cadarnhau'r ffeithiau;
- Darparu ar gyfer y Brifysgol gofnod o'r holl ddigwyddiadau a damweiniau o drwch blewyn o ganlyniad i'w gweithgareddau.

### 3. Sail Cyfreithlon

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni i brosesu'r wybodaeth hon yw bod gennym rwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c)). Mae cofnodi

digwyddiadau yn ofyniad cyfreithiol a statudol i bob cyflogwr, yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013. Mae hyn yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu gwella ei system rheoli iechyd a diogelwch yn barhaus, ac felly yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol o ran Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Gall rhywfaint o wybodaeth a gesglir at y diben hwn, yn enwedig o ran iechyd yr unigolyn, gael ei diffinio fel gwybodaeth sensitif neu wybodaeth y cyfeirir ati fel data categori arbennig o dan GDPR. Gan y byddwn yn prosesu data categori arbennig, rydym wedi nodi mai 'budd sylweddol i'r cyhoedd' yw'r amod Erthygl 9 priodol (GDPR, Erthygl 9(2)(g)), ynghyd â 'dibenion statudol' yn amod perthnasol yn Neddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018, Atodlen 1, Paragraff 6).

#### **4. Sut mae eich gwybodaeth personol yn cael ei storio ac am ba mor hir y caiff ei gadw**

Bydd eich data personol yn cael ei storio'n ddiogel ar rwydwaith cyfrifiadurol y Brifysgol. Dim ond aelodau o staff sydd angen mynediad i rannau perthnasol, neu eich holl wybodaeth, fydd â mynediad awdurdodedig.

Bydd data personol a roddir ar Ffurflen Cofnodi Digwyddiad yn cael ei gadw am o leiaf dair blynedd, neu tan ddiwedd y cyfnod statudol y gall unigolyn hawlio yn erbyn y Brifysgol. Er enghraifft:

- Mae gan blant dair blynedd o ddyddiad eu pen-blwydd yn 18 oed i hawlio;
- Efallai y bydd angen cadw data am rai mathau o beryglon galwedigaethol (e.e. asbestos, ymbelydredd) am gyfnodau estynedig.

Y tu hwnt i'r cyfnodau hyn, bydd ystadegau ar ddigwyddiadau a gaiff eu hadrodd yn ddiennw yn cael eu cynnal er mwyn adnabod patrymau.

#### **5. Rhannu eich gwybodaeth personol**

Gall y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, mewn rhai amgylchiadau, ddatgelu rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir i bobl eraill. Bydd hyn yn cynnwys y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE), pan fydd y digwyddiad yn arwain at rai damweiniau difrifol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodedig, sy'n gofyn am adroddiadau statudol yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013.

Yn achlysurol, gellir hefyd rannu gwybodaeth ag Yswirwyr a/neu gynrychiolwyr cyfreithiol y Brifysgol os ceir achosion o ymglyfreitha oherwydd anaf personol neu glefydau galwedigaethol.

Bydd Tîm Gweinyddol yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd yn cadw gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n arwain at anaf personol a/neu salwch galwedigaethol, a allai arwain at brosesau ymglyfreitha.

#### **6. Eich hawliau**

Mae gennych hawl i gael mynediad at, i gywiro ac i gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth personol. Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol i gael rhagor o wybodaeth [am eich hawliau](#).

Os dymunwch arfer unrhyw un o'ch hawliau, cysylltwch âg [hasstaff@aber.ac.uk](mailto:hasstaff@aber.ac.uk).

#### **7. Gwybodaeth Bellach**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn [hasstaff@aber.ac.uk](mailto:hasstaff@aber.ac.uk) i ddechrau. Os ydych yn anhapus â sut y cafodd eich gwybodaeth personol ei

phrosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol trwy e-bostio [infogovernance@aber.ac.uk](mailto:infogovernance@aber.ac.uk).